# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Miss K.O. Pritchard
0443 672267

### DRAMA

Cafwyd pedair noswaith o hwyl a mwynhad yr wythnos ddiwethaf gyda 'Cwmni Drama Gilfach Goch'. Perfformiwyd Comedi Frank Vickery - 'Family Planning', yn Neuadd yr Eglwys, a mawr y canmol a gafwyd gan y cynulleidfaoedd ar waith a dawn yr actorion. Roeddynt ar eu gorau. Teimlwyd fe allai bod brwdfrydedd mewn diwylliant lleol yn adfywio, gan y brwdfrydedd a ddatganwyd ar ôl y perfformiad. Cynhyrchydd y ddrama oedd Mrs Eirwen Davies a gofalwyd am y goleuadau a'r llwyfan gan Mri Alun Warren a Dave Lawrence.

Yr wythnos nesaf ceir perfformiad o'r ddrama 'Agnes of God' gan barti Ffrwdamos dan ofal Mr Thomas, Tonyrefail.

### GWAELEDD

Mae llu o drigolion y Cwm wedi bod yn wael ers rhai wythnosau a nifer mewn ysbytai. Llawenydd er hynny yw clywed bod Mr Raymond Jones a Mrs Edith Davies wedi dychwelyd adref. Dymunwn adferiad buan iddynt i gyd.

### PRYDER

Mae trigolion yr ardal yn pryderu'n ddirfawr am y cynnydd wythnosol mewn lladrata a dinistrio. Nid oes tŷ, cerbyd, siop, Capel nac Eglwys yn ddiogel oddi wrth yr anwariaid hyn. Nid troseddwyr o'r Cwm ydynt i gyd, ond teimlir bod yn rhaid gweithredu ar fyrder i ddod â hyn i ben. Mae trigolion y Cwm wedi trefnu gwylwyr ym mhob rhan o'r ardal er mwyn ceisio dal y drwg-weithredwyr. Maent wedi llwyddo mewn rhai mannau a rhaid diolch iddynt am ofalu am eiddo pobl na allent ofalu am eu hunain na'u heiddo.

Daw brawddeg y bardd yn wir a phwrpasol :

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng
A Duw a'r drai ar y gorwel pell.

O gofio heddwch a brawdgarwch y cymoedd mewn cyfnodau o galedi a dioddef mae y cyfnod hwn yn ddirgelwch ac yn achosi pryder am y dyfodol.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws
0222 810149

### DATHLU ADDYSG GYMRAEG

Agorwyd yr Ysgol Feithrin yn Ffynnon Taf ym mis Ebrill 1967 a'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gwaelod y Garth ym mis Medi yr un flwyddyn. Golyga hyn bod y ddwy ysgol yn bum mlynedd ar hugain oed eleni. I ddathlu'r achlysur cynhelir Noson Gaws a Gwin yn Neuadd y Pentref, Gwaelod y Garth, ar Nos Sadwrn, Mawrth 27ain. Siawns na fydd blas da ar y gwin ar ôl chwarter canrif!

### YSGOL GWAELOD Y GARTH

Mae union dau gant o blant yn yr ysgol erbyn hyn a wyth deg y cant ohonynt yn yr 'Uned' Gymraeg. Eleni, am y tro cyntaf cynhelir Eisteddfod Gŵyl Ddewi yn Neuadd y pentref yn hytrach na'r cyngerdd traddodiadol.

### CYFARFOD RHIENI

Cynhelir cyfrafod ar gyfer y disgyblion fydd yn trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i Ysgol Gyfun Rhydfelen ym mis Medi yn Neuadd yr ysgol am 7.00 p.m. nos Fercher, Mawrth 3ydd. Bydd Mr Brian James, y prifathro a Miss Llinos Jones yn dod i siarad â'r rhieni.

### RHYWBETH HEN RHYWBETH NEWYDD

Neithiwr cafwyd noson arbennig yn y Guild sef casglu ac arddangos trysorau hen a newydd. Cafwyd gwledd o hen ddarluniau o briodasau a gwisgoedd - medalau - llestri - offer - llyfrau ac yn eu plith clwmp o friallu cynta'r tymor. Yr un noswaith dathlwyd pen-blwydd Mrs Maud Evans yn 90 oed. Y hi yw un o aelodau ffyddlonaf y Guild. Mae yn ei sedd bob nos Fercher cyn gynted ag agorir y drws a neithiwr yn y noswaith "Yr hen a'r newydd" fe ddathlwyd ei phen blwydd. Roedd pob math o ddanteithion wedi eu trefnu a chyflwynwyd anrheg iddi ar ran yr aelodau.

### GŴYL DDEWI

Nos Fercher Mawrth 3ydd bydd dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Ellis Ynysybwl. Estynnir croeso i bawb i ddod i ddathlu noswaith draddodiadol o ganu ac i fwynhau tê a danteithion Cymreig yng nghwmni'r Guild. Dyma'r 31ain dathliad, a hyderir y bydd yr aelodau yn parhau i ddathlu

### GEMAU CYFARTAL

Dylai unrhyw un sy'n chwilio am gemau cyfartal ar gyfer ei gwpon pyllau pêl-droed nodi perfformiadau Ysgol Gwaelod y Garth :-

Gwaelod 1 Garth Olwg 1
Gwaelod 1 Gwaunmeisgyn 1

Bu'r tîm yn cystadlu yng nghystadleuthau 5 bob ochr yr Urdd yn Llantrisant ym mis Ionawr. Dywedir mai dim ond am 'dro' yr oeddent yn mynd yno!


### CAPEL GORLAWN

Roedd capel Bethlehem dan ei sang fore Sul, Chwefror 7fed ar gyfer gwasanaeth derbyn pedwar ar ddeg o bobol ifanc yn gyflawn aelodau o'r eglwys. Yr un bore croesawyd chwech o aelodau eraill yno o'r newydd. Roedd cymaint o bobol yn o i dderbyn y Cymun fel y bu'n rhaid i'r pen-trulliad ddychwelyd at ei botel wîn fwy nag unwaith er mwyn llenwi gwydrau pawb!

### CERDDED 10 MILLTIR

Ar brynhawn Sul, 14 Chwefror cerddodd 10 o aelodau CAIB, Capel Bethlehem o Waelod y Garth i Bontypridd er mwyn codi arian at elusen CASH i'r di-gartref.


DEWCH I AIL FYW
OES AUR
Y DIWYDIANT GLO




Cewch gyfle i brofi bywyd mewn pwll glo yn y Rhondda dros y 150 mlynedd diwethaf gyda cyn-lowr fel arweinydd.

Mae cymeriad unigryw y Rhondda yn cael ei gyfleu trwy lygaid tair cenhedlaeth un teulu glofaol.

Fe welwch olygfeydd, fe glywch synnau a chewch brofi arogleuon oes a fu, yn fyw o flaen eich llygaid.

AR AGOR 10 - 6
Dilynwch yr arwyddion ffordd o'r A470. Am fwy o fanylion cycylltwch a Mary Scourfield 0443 682036.

AUR DU
HANES GLO

Gorffennol gogoneddus ar gof a chadw